

---

# Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth: Y Cyngorydd Caro Wild



# UCHELGAIS PRIFDDINAS



Fel un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymaf yn y DU, mae'n hanfodol bod twf yn cael ei gynllunio'n dda, ei fod yn gynaliadwy, a'i fod o fudd i bawb yn y ddinas.

Mae twf yn gyfle mawr i Gaerdydd – mae dinas lwyddiannus yn rhywle lle mae pobl eisiau byw – ond bydd yn dod â heriau hefyd. Mae'r Weinyddiaeth hon yn ymrwymedig i sicrhau bod Caerdydd yn tyfu mewn ffordd gadarn, bod cymunedau hen a newydd yn cael eu cynllunio a'u cysylltu'n dda a bod ei seilweithiau a'i gwasanaethau cyhoeddus yn addas nawr ac yn y dyfodol.

Mae sicrhau system drafnidiaeth effeithiol yn un o brif flaenoriaethau'r Weinyddiaeth hon. Bydd mynd i'r afael â thagfeydd yn lleihau allyriadau carbon ac yn gwella ansawdd yr aer rydyn ni'n ei anadlu, yn gwella iechyd pobl ac yn cefnogi economi'r ddinas. Teithiau car preifat yw'r prif ddull teithio yng Nghaerdydd ar hyn o bryd. Mae'r duedd hon yn newid, gyda mwy a mwy o bobl yn beicio neu'n cerdded i'r gwaith ac yn dal y bws neu'r trê. Ond nid yw hyn yn newid yn ddigon cyflym. Mae'r amser i Gaerdydd newid gêr.

Bob dydd mae mwy na 90,000 o bobl – llawer mwy na thraean o weithlu'r ddinas – yn dod i mewn ac allan o Gaerdydd o leoliadau eraill yn Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae pedwar o bob pump yn dod mewn car. Mae'r Weinyddiaeth hon am i Gaerdydd fod yn brifddinas sy'n gweithio i Gymru. Rhaid i fuddsoddi mewn system drafnidiaeth gyflym, ddibynadwy a chynaliadwy sy'n cysylltu'r ddinas a'r rhanbarth fod yn broject o bwys cenedlaethol. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y ddinas-ranbarth a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod hyn yn digwydd.

## Byddwn yn:

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid y ddinas-ranbarth i **gyflawni cam cyntaf Metro Caerdydd**, gan gefnogi newid graddol o ran sut mae pobl yn cymudo i mewn i'r ddinas ac yn teithio o'i hamgylch.
- **Sicrhau bod defnydd tir yn y ddinas yn cael ei gynllunio a'i reoli'n dda** drwy weithrediad parhaus y Cynllun Datblygu Lleol, gan ddarparu **cymunedau a thai newydd o ansawdd uchel** drwy dull uwchgynllunio manwl.
- Cadw Bws Caerdydd dan berchnogaeth gyhoeddus a gwella'r seilwaith trafndiaeth bws gyhoeddus:
  - Cyflwyno mesurau blaenoriaeth i fsys ar goridorau allweddol a datblygu safleoedd parcio a theithio strategol.
  - Datblygu hybiau trafndiaeth strategol integredig yng Nghanol Caerdydd a Gorllewin Caerdydd, gan ystyried gyda phartneriaid y potensial am hyb yn Ysbyty Athrofaol Cymru.
  - Ystyried opsiynau tocynnu deallus wedi'u hintegreiddio gyda'r Metro
- Dechrau darparu Strategaeth Feicio Caerdydd, a fydd yn cynnwys:
  - Gweithredu **Prif Lwybrau Beicio** newydd yn raddol
  - Gwella llwybrau poblogaidd gan gynnwys **Taith Taf, Cylich y Bae a Heol y Castell**.
  - Adolygu'r model **Llogi Beics** mwyaf priodol ar gyfer Caerdydd, gan ystyried cynigion a arweinir gan dechnoleg.
- Rhoi teithio llesol wrth wraidd polisïau cynllunio, trafndiaeth a phriffyrdd a
  - Dylunio **llwybrau diogelach i'n hysgolion ac o amgylch ein cymunedau**, gan sicrhau bod gan bob ysgol gynllun teithio llesol ar gyfer beicio a cherdded.
  - Cyflwyno mwy o **ardaloedd 20mya a cherdded** ledled y ddinas i wneud ein strydoedd yn ddiogelach a thawelach.
  - Newid y diwylliant ceir drwy fentrau fel y Diwrnod di-Draffig, Rhannu Ceir a Chlybiau Ceir.
- Darparu **Strategaeth Aer Glân**, gan weithio ar draws Portffolios y Cabinet a Chyfarwyddiaethau'r Cyngor.
- Dechrau unioni'r **tanfuddsoddi hanesyddol yn ein ffyrdd a'n troedffyrdd** drwy gynyddu buddsoddiadau cyfalaf.
- Ymestyn gorfodaeth o ran troseddau traffig sy'n symud a pharcio a defnyddio technoleg newydd i reoli'r rhwydwaith ffyrdd er mwyn gwella ymddygiad gyrwyr a gwella diogelwch ar ein ffyrdd.
- Cyflwyno Papur Gwyrdd ar Drafnidiaeth Gynaliadwy yng Nghaerdydd.